# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, Robert G Parry OBE, FRAgS, Dylan Rees (o 2.40 pm), Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Eric Wyn Jones |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim wedi eu derbyn.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd i'w cadarnhau – cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2017.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

<u>Eitem 3 – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Ad-drefnu Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru</u>

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn yr ymgynghoriad ar Ad-drefnu Etholiadol, bod Llywodraeth Cymru yn argymell gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ar gyfer etholiadau lleol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion uchod fel rhai cywir.**

**3 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19 ('Y Panel'). Ymgynghorwyd â'r Arweinwyr Grŵp ynglŷn â'r cynigion.

Cafodd y canlynol ei argymell:-

- Cynyddu cyflogau Cynghorwyr 1.49% i £13,600. Mae hyn yn golygu cynnydd o £200 yn y cyflog sylfaenol.
- Dim cynnydd i'r cyflogau uwch.

• Cael gwared ar ddwy lefel o gyflogau ar gyfer Aelodau Pwyllgor Gwaith a Chadeiryddion Pwyllgorau.
• Mae’r Panel yn parhau i fod yn bryderus nad yw nifer o Aelodau yn hawlio eu had-daliadau ar gyfer costau gofal.
• Cyflwyno trefniadau absenoldeb salwch newydd ar gyfer Aelodau uwch.
• Mae’r Panel yn bryderus nad yw Cynghorwyr yn gyson yn derbyn offer TG / ffôn digonol a/neu gefnogaeth gaen Gynghorau. (Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd mewn awdurdodau i oruchwylio’r materion hyn).
• Cadarnhad o rannu swydd Aelod Pwyllgor Gwaith (Gellir rhannu cyflog Aelod o’r Pwyllgor Gwaith rhwng 2 Aelod mewn trefniant ‘rhannu swydd’).
• Cynghorau Tref a Chymuned – cynigion i ganiatáu a/neu ofyn am dalu lwfans cyfrifoldeb arbennig yn seiliedig ar faint y cyngor cymuned / tref.

Nodwyd bod yr Arweinwyr Grŵp wedi croesawu diddymu’r ddwy lefel o gyflog ar gyfer Aelodau’r Pwyllgor Gwaith a Chadeiryddion Pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD nodi argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2018/19 fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

## 4 SIARTR DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Siartr Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau CLlLC. Dyfarnwyd y siartr i’r Cyngor yn 2014, a’i nod yw darparu fframwaith eang ar gyfer Cynllunio lleol, hunan-asesu, gweithredu ac adolygu a rhannu arferion da ac arloesol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y rhoddwyd y dyfarniad am gyfnod o dair blynedd, ac y bydd y Cyngor yn ceisio ail asesiad yn 2018, drwy baratoi hunanasesiad yn erbyn y meini prawf a ddarparwyd gan CLlLC. Nododd y byddai’r Pwyllgor yn cael diweddariad pellach ym mis Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD cadarnhau’r gweithredoedd a gynigiwyd yn yr adroddiad hwn.**

## 5 AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn unol â’r arweiniad statudol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae gofyn i’r Cyngor adolygu a chynnal arolwg ymysg Aelodau o amseriad cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinyddion Grwpiau ar 26 Hydref, 2017, yr anfonwyd holiadur i’r holl Aelodau er mwyn cael eu barn. Roedd opsiynau yn cynnwys dechrau cyfarfodydd am 10:00am, 2:00pm, 4:00pm a 6:00pm.

Nodwyd bod 13 o ymatebion wedi dod i law (43%). Trafododd Aelodau’r pwyllgor yr opsiynau a oedd ar gael a chytunwyd y dylid cadw at y trefniant presennol gyda’r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn dechrau am 2:00pm.

**PENDERFYNWYD argymell i gyfarfod llawn y Cyngor Sir na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i amseriad cyfarfodydd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**